# Dŵr sy'n Gollwng

Cwsmeriaid Dibreswyl -
Gwybodaeth i Adwerthwyr

## Mae dŵr yn adnodd gwerthfawr, ac mae hi'n fuddiol i ni i gyd sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio'n ddoeth.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau defnydd effeithlon o ddŵr a lleihau gollyngiadau. Mae lleihau colledion dŵr, trwsio gollyngiadau ar ein prif bibellau ac atal byrstiau'n flaenoriaeth bwysig i ni. Mae gennym ni dimau arbenigol yn gweithio ddydd a nos i chwilio am ollyngiadau cudd ar ein pibellau o dan y ddaear. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi llwyddo i gwtogi 50% ar faint o ddŵr sy'n cael ei golli oherwydd gollyngiadau.

Fodd bynnag, mae peth o'r dŵr sy'n cael ei golli'n dod o bibellwaith y cwsmeriaid eu hunain, felly os oes mesurydd dŵr gan y cwsmeriaid, mae'n bosibl eu bod nhw'n talu am ddŵr nad ydyn nhw wedi ei ddefnyddio. Mae yna nifer o fanteision eraill i drwsio gollyngiadau; mae'r dŵr sy'n gollwng o bibellau'n gallu difrodi ffyrdd a sylfeini adeiladau, felly mae atal gollyngiadau a'u trwsio'n gyflym yn fuddiol i bawb. Mae defnydd effeithlon o ddŵr yn helpu i amddiffyn yr amgylchedd a chadw biliau'n isel hefyd.

Os ydych chi'n amau bod dŵr yn gollwng ar ein rhwydwaith, dylech roi gwybod i ni trwy ffonio **0800 052 0130**; mae'n rhad ac am ddim ac yn agored 24 awr y dydd.

Taflen i Adwerthwyr yw hwn. Mae'n esbonio beth i'w wneud os oes dŵr yn gollwng yn eiddo Cwsmer Dibreswyl (NHH), pwy sy'n gyfrifol am drwsio'r broblem, ac os oes mesurydd gan y cwsmer, pryd y byddai hawl ganddo gael lwfans am ddŵr a gollwyd trwy ollyngiad.

# Cyfrifoldeb am bibellau dŵr

## Ein prif bibellau a phibellau dŵr

Ni sy'n gyfrifol am yr holl bibellwaith hyd at y ffin â'r stryd lle mae ein prif bibell fel rheol (ond nid bob tro). Mae hyn yn cynnwys

— Prif bibellau dŵr;

— Stoptapiau yn y ffordd neu'r palmant;


— Pibellwaith rhwng y brif bibell a'r ffin â'r stryd, sef y bibell gyswllt.

Mae'r rhain i'w gweld fel rheol ar fapiau y gallwch eu harchwilio am ddim yn ein Swyddfeydd Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT, neu gallwch gael copi am dâl a bennir yn ein Dogfen Tariffau Cyfanwerthu.

Ni sy'n gofalu am ein prif bibellau dŵr ein hunain a'n pibellau cyswllt ein hunain, ac rydyn ni'n cyflawni gwaith cynnal a thrwsio rheolaidd arnynt. Mae gennym raglen helaeth o waith i drwsio hen brif bibellau sydd mewn cyflwr gwael hefyd er mwyn lleihau nifer y gollyngiadau a byrstiau arnynt.

Mae hi'n bwysig gwybod pa bibellau mae eich cwsmeriaid yn gyfrifol amdanynt, a pha rai sydd yn ein gofal ni.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am gyfrifoldeb eich cwsmer, cysylltwch â'n Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu.




**Ein heiddo, a ni sy'n eu trwsio**

Byddwn ni'n cynnal y rhain ac yn trwsio gollyngiadau cyn gynted â phosibl.

**Eich pibell gyflenwi breifat**

Eich eiddo chi, ond o dan rai amodau, gallwn gynnig eu trwsio am ddim.

**Eich pibellwaith a'ch ffitiadau mewnol**

Eich eiddo chi, a chi sy'n eu trwsio.

## Eich cyflenwad dŵr a'ch pibellau mewnol

Cwsmeriaid NHH sy'n gyfrifol am:


— Eich pibell gyflenwi breifat, sef y bibell sy'n cysylltu â'n pibell gyswllt ni ac yn rhedeg i mewn i'ch eiddo; a'r

— Holl bibellwaith a ffitiadau mewnol.

Os yw eich eiddo cryn bellter o'n prif bibell ddŵr, mae'n debygol y bydd pibell gyflenwi hir iawn gennych.

Cwsmeriaid NHH sy'n gyfrifol am y bibell gyflenwi yn ei chyfanrwydd, o'ch eiddo i ffin y stryd lle mae ein prif bibell ni (neu i'r brif bibell ei hun os nad yw'r brif bibell yn y stryd), hyd yn oed os yw'n pasio trwy briffyrdd cyhoeddus neu eiddo trydydd parti.

Mewn ambell i achos, gallant rannu cyfrifoldeb dros y bibell gyflenwi ag eiddo cyfagos.




**Ein cyfrifoldeb**
Prif bibell ddŵr
Pibell gyswllt

**Cyfrifoldeb y cwsmer**
Pibell gyflenwi breifat
Pibell gyflenwi breifat a rennir

Ffin yr eiddo
Stop tap/Mesurydd
Ffin â'r stryd

# Dod o hyd i ollyngiadau

## Ar ein prif bibellau a'n pibellau dŵr

Rydyn ni'n trwsio gollyngiadau ar y prif bibellau a'r pibellau dŵr sydd yn ein perchnogaeth ni cyn gynted ag y gallwn ni, ac yn adnewyddu pibellau sydd mewn cyflwr gwael yn rhan o'n rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw. Er ein bod ni'n gwneud pob ymdrech i drwsio gollyngiadau'n gyflym, mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n gweithio'n ddiogel, ac mae'n bosibl y bydd angen i ni gael caniatâd yr Awdurdod Priffyrdd cyn torri twll mewn llwybr neu ffordd.

## Ar bibellau cyflenwi dŵr neu ffitiadau mewnol cwsmeriaid NHH

Cyfrifoldeb y cwsmer yw trwsio pibell cyflenwi dŵr sy'n gollwng neu atal gwastraff o'r pibellwaith mewnol neu'r ffitiadau yn eu heiddo, ond gallwn eu cynorthwyo nhw i ddod o hyd i'r broblem a chynnig cyngor ar ei drwsio.

Rhaid datrys unrhyw ollyngiadau neu wastraff dŵr cyn pen 30 diwrnod calendr ar ôl dyddiad cadarnhau'r gollyngiad. Os na fydd hynny'n digwydd, byddwn ni'n cyfeirio'r achos at ein tîm Cyfreithiol a fydd yn cysylltu â'r cwsmer i amlinellu eu cyfrifoldebau cyfreithiol ac yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r gwastraff dŵr. Cewch eich hysbysu os cyflwynir hysbysiad gollyngiad i'ch cwsmer.

O dan Adran 73 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae gwastraffu dŵr yn drosedd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw achos bwriadol neu esgeulustra sy'n gwastraffu neu'n camddefnyddio'r dŵr rydyn ni'n ei gyflenwi. Cymrwch eich amser i ddarllen yr hysbysiad cyfreithiol ar dudalen 9, a rhannwch y wybodaeth yma â'ch cwsmeriaid.

I ddod o hyd i gontractwr / plymwr lleol sy'n gallu helpu, rydyn ni'n argymell eich bod yn mynd i:

**Watersafe**
watersafe.org.uk
0333 207 9030

**Cynllun Plymwyr Cymeradwy y Diwydiant Dŵr**
wras.co.uk
01495 248 540

# Lwfansau

Mae unrhyw ddŵr sy'n cael ei wastraffu neu ei golli trwy ollyngiadau ar bibellwaith cwsmer yn debygol o gael ei gofnodi fel defnydd ar eu mesurydd, a chaiff y tâl ei godi ar yr Adwerthwr trwy'r broses setlo.

Os ni sy'n gyfrifol am y gollyngiad, byddwn ni'n rhoi addasiad cyfeintiol ar waith i ganslo unrhyw daliadau dŵr a charthffosiaeth ychwanegol.

Os yw'r cwsmer yn gyfrifol am y gollyngiad, bydd y taliadau dŵr yn daladwy o hyd, ond gallwn leihau'r taliadau carthffosiaeth os nad yw'r dŵr a gollwyd trwy'r gollyngiad wedi dychwelyd i'r garthffos fel a ddisgrifir isod.

Os yw'r mesurydd yn gwasanaethu eiddo dibreswyl a phreswyl, e.e. tafarn a fflat (a ddefnyddir fel cartref) byddwn ni'n dyfarnu lwfans dŵr ar elfen breswyl y bil yn unig.

## Hawlio lwfans gollyngiadau

Dylid hawlio lwfans gollyngiadau trwy gyflwyno ffurflen H/01

Telir lwfans gollyngiadau ar ôl i'r bibell gyflenwi gael ei thrwsio neu ei hadnewyddu ar yr amod:

— Ei bod wedi cael ei thrwsio cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl cadarnhau bod dŵr yn gollwng.

— Hawliad yn cael ei gyflwyno cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad y gwaith trwsio.

— Na chafodd y gollyngiad ei achosi trwy esgeulustra.

— Na thalwyd lwfans ar gyfer yr un eiddo o fewn y 2 flynedd flaenorol.

— Nad ydym wedi cyfeirio'r mater at ein tîm cyfreithiol am na chafodd y gollyngiad ei drwsio cyn pen 30 diwrnod calendr.

— Bod y gollyngiad ar eich pibell gyflenwi allanol ac nid ar y ffitiadau mewnol.

## Cyfrifo lwfansau gollyngiadau

Byddwn ni'n ailasesu'r taliadau carthffosiaeth yn seiliedig ar eich defnydd arferol, gan gymryd unrhyw amrywiadau tymhorol mewn defnydd i ystyriaeth os yw hynny'n berthnasol.

Caiff unrhyw lwfans ei ôl-ddyddio am hyd at 12 mis cyn dyddiad trwsio'r gollyngiad.

# Defnyddio dŵr yn ddoeth - awgrymiadau arbed dŵr i gwsmeriaid

**Cadwch lygad am ddefnydd anarferol o uchel**

Cymerwch ddarlleniadau rheolaidd o'ch mesurydd dŵr (os yw'n ddiogel i chi wneud hynny) i helpu i ddeall eich defnydd o ddŵr a chlustnodi unrhyw ollyngiadau posibl.

Cadwch lygad am bibellau sy'n gollwng o dan y ddaear a gollyngiadau o blymio mewnol, tapiau awyr agored, taenellwyr a phibellau dyfrio.

**Trwsio tapiau a gorlifoedd sy'n gollwng**

Cadwch lygad ar adeiladau a phibellwaith allanol er mwyn sicrhau nad oes dŵr yn gollwng heb yn wybod i chi.

Gwnewch yn siŵr bod pob dyfais arbed dŵr, fel toiledau, wrinalau a falfiau pêl yn gweithio fel y dylen nhw.

Mae wrinalau sy'n fflysio'n ddi-baid a thapiau sy'n diferu'n gallu cynyddu'ch defnydd o ddŵr.

Insiwleiddiwch eich pibellau fel nad yw eich pibellau mewn perygl o rewi a hollti mewn tywydd oer.

**Lleihewch eich defnydd o ddŵr fflysio**

— Gosodwch ddyfeisiau disodli dŵr yn y seston.

— Os oes gennych sestonau fflysh deuol, codwch hysbysiad mewn man amlwg i esbonio i bobl sut i ddefnyddio'r ddau fflysh er mwyn atal defnydd anghywir a gwastraff.

- Bydd gan rai toiledau newydd orlifoedd neu ollyngfeydd sy'n rhyddhau'n uniongyrchol i'r pan, ac mae'n bosibl na fydd neb yn sylwi bod problem. Clustnodwch unrhyw doiledau â gorlifoedd mewnol ac archwiliwch nhw'n gyson am ollyngiadau.

## Prynwch offer sy'n effeithlon o ran dŵr

— Wrth brynu unrhyw offer, ffitiadau neu brosesau newydd, pennwch ofyniad am rai sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon.

— Mae chwistrellau pwysedd uchel yn gallu defnyddio llai o ddŵr na phibellau dyfrio confensiynol am eu bod nhw'n defnyddio pwysedd yn hytrach na llawer o ddŵr i lanhau.

— Adolygwch eich defnydd o ddŵr unwaith y flwyddyn a lluniwch gynlluniau i leihau defnydd.

— Addysgwch yr holl staff am fentrau arbed dŵr a mynnwch gefnogaeth y rheolwyr yn hynny o beth.

— Chwiliwch am ffyrdd o ymgorffori mentrau i'ch polisi amgylcheddol ehangach.

# Y stwff cyfreithiol

**Mae gadael i ddŵr ollwng yn drosedd o dan Adran 73 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA 1991). Mae hynny'n golygu, os na fydd cwsmer yn trwsio'r broblem, gallwn eu herlyn am adael i'w ffitiadau dŵr fod, neu barhau i fod, mewn cyflwr diffygiol. Y ddirwy uchaf yn hyn o beth yw £1,000.**

Mae manylion Adran 73 isod os ydych am eu darllen:

"Os oes unrhyw berson sy'n berchennog neu'n ddeiliad ar unrhyw eiddo y mae ymgymerydd dŵr yn darparu cyflenwad dŵr ar ei gyfer yn achosi neu'n caniatáu, yn fwriadol neu trwy esgeulustra, i unrhyw ffitiad dŵr y mae'n gyfrifol amdano aros yn ddiffygiol, fod ag angen trwsio neu wedi ei adeiladu a'i addasu mewn modd, neu i gael ei ddefnyddio mewn modd y mae'r dŵr a gyflenwir ar ei gyfer yn, neu'n debygol o gael ei wastraffu, neu o ran y dibenion y mae'n cael ei ddarparu ar ei gyfer, yn cael ei gamddefnyddio neu ei ddefnyddio'n ddiangen, bydd y person hwnnw'n euog o drosedd ac yn atebol, ar erlyniad diannod, i drosedd hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol."

Nid gwastraffu dŵr yn unig mae gollyngiadau, maen nhw'n gallu difrodi eiddo hefyd. Dyna pam ei bod hi'n bwysig trwsio'r gollyngiad cyn gynted â phosibl, a pham fod angen i ni osod terfyn amser ar ddatrys y broblem. Mae hynny 30 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad pan ddaeth y cwsmer yn ymwybodol o'r gollyngiad. Mae Adran 75(2)(b) o WIA 1991 yn rhoi'r awdurdod i ni wneud hyn.

Os nad yw'r gollyngiad yn cael ei drwsio cyn pen 30 diwrnod gwaith, byddwn ni'n cyfeirio'r mater at ein tîm Cyfreithiol a fydd yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r gwastraff dŵr. Gallai hynny gynnwys: cyflwyno hysbysiad ffurfiol i drwsio gollyngiadau lle bod modd a chodi tâl ar y cwsmer am y gost; erlyn am wastraffu dŵr neu am unrhyw ffitiadau dŵr diffygiol; ac, yn achos cyflenwad a rennir, cyflwyno hysbysiad cyfreithiol sy'n mynnu bod yr eiddo'n gosod pibellau cyflenwi ar wahân cyn pen cyfnod o 3 mis.

Mewn argyfwng, er enghraifft os yw'r dŵr sy'n gollwng yn rhewi ar draws priffordd gyhoeddus neu'n achosi difrod i eiddo, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddatgysylltu'r cyflenwad dŵr. Dim ond os yw hi'n hollol angenrheidiol a bod pob mesur arall wedi methu y byddwn ni'n gwneud hyn. Mae hyn yn gyson ag Adran 75(2)(a) o WIA 1991.

Mae hi'n bwysig bod eich cwsmer yn ymwybodol, yn ogystal â bod yn drosedd o dan WIA 1991, mae unrhyw ffitiadau dŵr sy'n caniatáu i ddŵr gael ei wastraffu'n torri Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 hefyd, sy'n dwyn dirwy o hyd at £1,000. Weithiau bydd angen i ni ddod i mewn i'ch eiddo i archwilio'r pibellau a'r ffitiadau.

Gobeithio na fydd hynny'n broblem, ond os na chaniateir mynediad i'r eiddo, mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud cais am Warant Mynediad gan y Llys Ynadon. Os ceir bod unrhyw ffitiadau dŵr yn ddiffygiol, byddwn ni'n cyflwyno hysbysiad tor-reolau i chi a fydd yn rhoi cyfnod penodol i'r cwsmer eu trwsio neu eu hadnewyddu. Os na fydd cwsmer yn gwneud hynny o fewn y terfyn amser, gellir eu herlyn.

Rydyn ni wir yn gobeithio na fydd angen i ni wneud dim o'r uchod. Fodd bynnag, rydyn ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig bod eich cwsmer yn ymwybodol o'r stwff cyfreithiol a beth allai ddigwydd os na fyddan nhw'n trefnu bod gollyngiad yn yr eiddo'n cael ei drwsio.